



Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

a gynhaliwyd yng Nghapel Ebeneser, Wrecsam,

ar Ddydd Mercher, 11eg o Fai, 2011 am 7.00 yh

1. Presennol

David James, Gwawr Cordiner, Trefor Jones-Morris, Alun Emanuel, Gwenan Emanuel, Gwawr Esyllt, Siân Edwards, Ieuan Roberts, Ann Hughes, Gareth Roberts.

Ymddiheuriadau

Sara Mair Jones, Huw Foster Evans, Denise Williams, Meinir Jones, Nerys Jackson, Eleri Lewis, Bob Jones, Siôn Aled.

2. Croeso gan y Cadeirydd

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod a chyflwyno Gwawr Esyllt fel Swyddog Busnes newydd y Fenter. Diolchodd i'r staff am y gwaith a gyflawnwyd dros y flwyddyn. Trafodwyd fod angen anelu at gynulleidfa ehangach ac ethol Cyfarwyddwyr newydd i'r Bwrdd.

3. Cadarnhau cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2010-11

Derbyniwyd bod y Cofnodion yn gywir.

4. Materion yn Codi

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.

5. Derbyn adroddiad y Rheolwr

Roedd denu rhagor o nawdd yn flaenoriaeth i'r Fenter dros y flwyddyn gyda dros £33,000 o nawdd ychwanegol wedi ei dderbyn drwy'r Rhaglen Datblygu Wledig yn ogystal â £1,500 a dderbyniwyd gan Fwrdd yr Iaith ar gyfer y Prosiect Teuluoedd.

Daeth y Cynllun Ymchwil a Datblygu'r Gymraeg a ariennir gan y Rhaglen Datblygu Wledig i ben ym mis Chwefror 2011 gyda chynllun newydd yn weithredol ers Mawrth 2011 ar gael i drefnu rhwydweithiau a chynnig grantiau i fusnesau bach yn yr ardal wledig. Fe fydd y Prosiect Dwyieithrwydd Mewn Busnes yn annog busnesau yn ardal wledig Wrecsam i fabwysiadu Cynlluniau Iaith a chynhyrchu deunyddiau marchnata dwyieithog

Trafodwyd fod grant gwledig ychydig yn gyfyngedig ond mae'r Fenter yn edrych allan am gyfleoedd i weithio yn ganol y dref yn gyson. Mae Bwrdd yr Iaith yn hapus i gefnogi busnesau yn y dref ac mae'r Fenter am weithio yn agos gyda'r Bwrdd hyd nes y bydd yn dod i ben ym mis Mawrth 2012.

Mae'r Fenter wrthi nawr yn ymgeisio am grantiau ar gyfer cynnal Gŵyl Roc a Phop Cymraeg Y Ffin yn y dref, er mwyn codi ymwybyddiaeth pobl ifanc leol o'r grwpiau Cymraeg a fydd yn perfformio yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst.

Bu rhywfaint o gynnydd yn y grant a dderbyniwyd gan Fwrdd yr Iaith fel cydnabyddiaeth o'r gwaith sydd wedi ei gyflawni yn ddiweddar o ddatblygu gwaith y Fenter.

6. Derbyn cyfrifon hyd at Fawrth 31ain 2010

Cafwyd incwm o £47,000 gyda bron i £14,000 yn ymwneud a'r Prosiect Datblygu Gwledig. Roedd costau yn £1,500 yn fwy na'r incwm, ond mae'r sefyllfa yn well na'r flwyddyn cynt. Fe fydd ffigyrau'r flwyddyn nesaf yn dangos cynnydd sylweddol unwaith eto yn nhrosiant y Fenter gyda mwy o incwm na chostau. Os bydd y Fenter yn derbyn yr hyn sy'n ddyledus, fe fydd y cwmni gyda gwarged o £3,600 ar ddiwedd y flwyddyn.

Bu i'r Cadeirydd ddiolch i David y Trysorydd am ei holl waith yn ystod y flwyddyn.

Cwestiynwyd pam fod treuliau ar gyfer grantiau uniongyrchol yn £13,000. Dywedodd David fod amodau'r grant Cynllun Datblygu Gwledig yn golygu bod rhaid i'r Fenter dalu am y gweithgareddau yn gyntaf yna fe fydd Gogledd y Gororau yn talu'r arian sy'n ddyledus drwy'r cynllun grant yn ôl i'r Fenter.

Gofynnwyd ar gyfer beth oedd taliadau ar gyfer ffioedd proffesiynol, cadarnhaodd Gwawr fod y ffioedd hyn ar gyfer y cyfrifwyr.

7. Ethol y Bwrdd Cyfarwyddwyr

Trafodwyd fod angen ethol Cyfarwyddwyr newydd i'r Bwrdd. Gan nad yw John Pritchard yn gyfarwyddwr bellach dywedodd y Cadeirydd y byddai'n fuddiol cael 3 neu 4 wyneb newydd oherwydd yn aml nid oes rhai aelodau yn gallu bod yn bresennol yn y Pwyllgorau rheoli. Dywedodd y Cadeirydd fod y Bwrdd Rheoli yn agored i aelodau enwebu unigolion i fod yn aelodau ac y byddai'n fuddiol enwebu aelodau sydd yn gweithio i fudiadau Cymraeg megis Mudiad Meithrin a Merched y Wawr. Yn ôl Cyfansoddiad y Fenter fe all y Bwrdd enwebu aelodau yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd Rheoli ac fe fydd yr aelodaeth yn cael ei gadarnhau yn ystod y Cyfarfod Blynyddol. Mae'r Pwyllgor Rheoli wedi cytuno enwebu Wiliam Williams a Siôn Aled. Bu i Gwenan Emanuel grybwyll yr enw Richard Jones sydd yn gyn prifathro.

8. Ethol Cadeirydd o'r Bwrdd Cyfarwyddwyr

Diolchwyd i Trefor am ei waith ac fe'i hail-etholwyd yn Gadeirydd.

9. Unrhyw Fater arall

Bu i Gwawr gyfarfod gydag Aled Roberts a chyfarwyddwr Ieuenctid y Cyngor sef Claire Field, roedd hi'n gweld gwerth yn yr hyn y mae'r Fenter/Urdd wedi ei gyflawni felly gobeithir y bydd dilyniant i Brosiect Cymru Ifanc Wrecsam.

Gofynnwyd i anfon llythyr i Aled Roberts i'w longyfarch ar gael ei ethol gan ei fod wedi bod yn gefnogol i waith y Fenter.

10. Dyddiad cyfarfod nesaf

Oherwydd bod y cyfarfod yn cael ei gynnal mor agos i ddiwedd y flwyddyn ariannol gofynnwyd a fyddai pawb yn hapus i gynnal y cyfarfod yn ystod mis Mehefin y flwyddyn nesaf fel y gellid rhoi cyflwyniad ariannol diweddaraf.

Anerchiad gan Hywel Edwards

Gohiriwyd anerchiad Hywel Edwards oherwydd y niferoedd.